Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

Blaenoriaethau polisi etholiadol ar gyfer etholiadau 2021

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau a refferenda a rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder a chyfranogiad y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Rydym yn atebol i seneddau Cymru, yr Alban, a'r DU.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn amlinellu rhai o'n blaenoriaethau polisi allweddol cyn etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos â Phwyllgor y Llywydd, y Senedd, a Llywodraeth Cymru i gefnogi unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â'r broses etholiadol, i sicrhau y gellir eu cyflawni'n llwyddiannus ac er budd pleidleiswyr.

Blaenoriaethau ar gyfer Cymru

Gwella tryloywder cyllid gwleidyddol

Bydd llawer ohonom yn gweld mwy o ddeunydd ymgyrchu ar-lein bellach nag y byddwn ar daflenni; fodd bynnag, er bod rhaid nodi'n glir pwy dalodd am ddeunydd ymgyrchu argraffedig, nid yw'r gyfraith yn cwmpasu hysbysebion gwleidyddol ar-lein. Yn ein harolwg wedi Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2019, dywedodd llai na thraean o'r bobl a holwyd eu bod yn gallu darganfod pwy greodd y wybodaeth wleidyddol a welsant ar-lein; a chytunodd bron i dri chwarter ohonynt ei bod hi'n bwysig iddynt wybod pwy greodd y wybodaeth honno.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori yn ddiweddar ar gynigion i gynnwys argraffnodau digidol ar ddeunydd ymgyrchu cyn y pleidleisiau hynny sy'n aros yng nghwmpas deddfwriaeth y DU. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyflwyno'r gofyniad hwn ar gyfer etholiadau penodol yn yr Alban.

Rydym yn deall bod y Senedd yn gwylio datblygiadau yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban er mwyn llywio ystyriaethau parthed argraffnodau digidol. Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad yn amlygu dau faes lle gallai newidiadau ychwanegol at y rheiny a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU wella tryloywder ymhellach i bleidleiswyr:

1. Trwy estyn y rheolau argraffnodau digidol i bob deunydd gan ymgyrchwyr di-blaid anghofrestredig, p'un a wnaethant dalu i'w hyrwyddo ai peidio

2. Trwy ofyn bod argraffnod yn rhan o'r deunydd ymgyrchu, yn hytrach na'i gynnwys mewn dolen neu dudalen broffil ar wahân

Argymhellwn fod unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn ystyried y mater hwn fel rhan o'i rhaglen ddeddfwriaethol i sicrhau'r lefel eithaf o dryloywder ymgyrchu i bleidleiswyr. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda llywodraethau a sefydliadau cyfryngau cymdeithasol perthnasol wrth wneud argraffnodau yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer deunydd ymgyrchu etholiadau a refferenda digidol.

Symleiddio a moderneiddio cyfraith etholiadol

Mae cyfraith etholiadol yn anhylaw, cymhleth, a hen-ffasiwn. Mewn nifer o feysydd, nid yw'n cyflawni ei nod bellach. Rydym yn galw ar unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i ymrwymo i weithredu'r pecyn argymhellion cynhwysfawr ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol a wnaed gan Gomisiynwyr Cyfraith y DU. Byddai hyn yn symleiddio a moderneiddio cyfraith etholiadol ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda yng Nghymru.

Y diweddaraf gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

Sefydlwyd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn 2017. Daeth hyn wedi argymhelliad a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad ar Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, sef y dylid sefydlu corff parhaol i wella ac effeithloni cynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol y dyfodol, a darparu cyfleoedd i drafod meysydd pryder allweddol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Uwch Swyddogion Canlyniadau a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol fel Aelodau, cynrychiolwyr Llywodraethau Cymru a'r DU, a'r Senedd a'r Comisiwn Etholiadol fel Ymgynghorwyr. Mae'n gwneud penderfyniadau parthed cynllunio a rheoli digwyddiadau etholiadol sy'n digwydd yng Nghymru..

Yn ei adroddiad ar etholiadau 2017, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gellid datblygu rôl y Bwrdd er mwyn cefnogi ei rhaglen moderneiddio etholiadol gyffredinol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried a ddylai'r Bwrdd fod yn grŵp statudol, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban. Hoffem weld y grŵp hwn yn datblygu a gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a'n partneriaid ar draws y gymuned etholiadol i helpu i gyflawni hyn.

Moderneiddio cofrestru etholiadol

Mewn blynyddoedd diweddar, rydym wedi gweld Llywodraeth Cymru'n datblygu nifer o gynigion polisi mewn perthynas â moderneiddio ein prosesau etholiadol, gan gynnwys estyn yr etholfraint, diwygio'r canfasiad, a chofrestru awtomatig. Argymhellwn y dylai unrhyw lywodraeth yn y dyfodol ystyried y diwygiadau cofrestru canlynol:

- Integreiddio ceisiadau cofrestru, neu eu cyfeirio o drafodiadau gwasanaethau cyhoeddus eraill y mae pobl eisoes yn eu defnyddio i newid eu cyfeiriad.

- Gwella cysylltiadau technolegol a fyddai'n galluogi cyfathrebu mwy cydlynol rhwng gwahanol gofrestrau etholiadol, a gwella'r gwasanaeth IER (cofrestru etholiadol unigol) digidol canolog fel ei fod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar EROs i ganfod ceisiadau dyblyg yn haws.

Edrychwn ymlaen at wneud ein rhan yn y trafodaethau hyn trwy roi cyngor arbenigol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno er budd pleidleiswyr yng Nghymru.

Gwella mynediad at etholiadau

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gan bleidleiswyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fwrw eu pleidlais gyda hyder, gan gynnwys pleidleiswyr sydd angen gwybodaeth mewn ystod o fformatau hygyrch, megis y rheiny ag anableddau dysgu a/neu ffisegol. Rydym yn gofyn bod unrhyw lywodraeth yn y dyfodol yn gwneud pob adnodd pleidleiswyr yn hygyrch yn y modd hwn i sicrhau nad yw pleidleiswyr ag anghenion ychwanegol yn cael eu difreinio.

Am ragor o wybodaeth, neu i drafod y materion hyn yn ehangach, cysylltwch ag Ella Downing, Swyddog Canlyniadau trwy edowning@electoralcommission.org.uk

Electoral policy priorities for the 2021 elections

The Electoral Commission is the independent statutory body which oversees elections and referendums and regulates political finance in the UK. We work to promote public confidence and participation in the democratic process and ensure its integrity. We are accountable to the UK, Welsh and Scottish parliaments.

In this document we outline some of our key policy priorities ahead of next year's Senedd elections. We look forward to working closely with the Llywydd's Committee, the Senedd and the Welsh Government to support any proposed changes relating to the electoral process, to ensure they can be delivered successfully and in the interest of voters.

Priorities for Wales

Improving transparency of political finance

Many of us will now see more campaign material online than we will on leaflets; however while it must be clear who paid for printed election campaign advertising, no digital imprint law covers these ads online. In our survey after the 2019 UK Parliamentary general election, less than a third of people said they could find out who had produced the political information they saw online, and nearly three in four agreed it was important for them to know who produced that information.

The UK Government has recently consulted on proposals for digital imprints on campaign materials used ahead of those polls which remain within UK legislation. The Scottish Government has also introduced this requirement for specific elections in Scotland.

We understand that the Senedd is looking at the developments by both UK and Scottish governments to inform thinking on digital imprints. Our consultation response highlights two specific areas where changes in addition to those proposed by the UK Government would further improve transparency for voters:

3. By extending digital imprint rules to all material from unregistered non-party campaigners whether or not they have paid to promote it.

4. By requiring the imprint to be part of the campaign material, rather than in separate link or profile page.

We recommend that any future Welsh Government considers this issue as part of its legislative programme to ensure ultimate campaign transparency for voters. We are committed to working with governments and relevant social media organisations in making imprints a legal requirement for digital election or referendum campaign material.

Simplifying and modernising electoral law

Electoral law is unwieldly, complex and outdated. In many areas it is no longer fit for purpose. We are calling on any future Welsh Government to commit to implementing the

comprehensive and well- supported package of recommendations for electoral law reform made by the UK's Law Commissions. This would simplify and modernise electoral law for all who participate in elections and referendums and Wales.

The work of the Wales Electoral Coordination Board

The Wales Electoral Coordination Board has been in existence since 2017. This followed a recommendation made by the Electoral Commission, in its report on the National Assembly for Wales General Election in 2016, that a permanent body should be established to further improve and streamline planning for future electoral events, and to provide opportunities for discussing key areas of common concern.

The Board comprises Senior Returning Officers and the Association of Electoral Administrators as Members with representatives of the Welsh and UK governments, the Senedd and the Electoral Commission as Advisors. It makes decisions on the effective planning and management of electoral events taking place in Wales.

In its report on the 2017 elections, we recommended that the Welsh Government consider how the role of the Board could be developed to support its overarching electoral modernisation programme. This might include, for example, considering if the Board should become a statutory group, as is the case in Scotland. We would like to see this group develop and work with any future Welsh Government and our partners across the electoral community to help achieve this.

Modernising electoral registration

In recent years we have seen the Welsh Government develop a number of policy proposals relating to the modernisation of our electoral process, including extending the franchise and implementing canvass reform and automatic registration. We recommend that any future government consider the following registration reforms:

- Electoral registration applications integrated or signposted from other public service transactions that people already use to change their address.

- Improve technical links that would allow more joined up communication between different electoral registers, and improve the central IER (individual electoral registration) digital service so that it provides EROs with the right information they need to more easily identify duplicate applications.

We look forward to playing our part in these discussions by providing expert advice to ensure that any changes introduced are made in the interests of voters in Wales.

Improving access to elections

We work to ensure all voters have the information they need to cast their vote with confidence, including voters who require information in a range of accessible formats such as those with learning and/or physical disabilities. We ask that any future government make all voter information resources accessible in this way to ensure voters with additional requirements don't become disenfranchised.

For further information or to discuss these issues, please contact Ella Downing, Communications Officer at edowning@electoralcommission.org.uk